Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Busnes**

# Amserlen diwygiedig ar gyfer ystyried:

## Y Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)

Ionawr 2024

Ar 18 Medi 2023, cyflwynwyd y Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) yn y Senedd.

Ar 11 Gorffennaf 2023, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 26.9, i gyfeirio'r Bil at y Pwyllgor Biliau Diwygio i ystyried yr egwyddorion cyffredinol a chyflwyno adroddiad arnynt.

Ar 12 Medi 2023, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 26.7, ar amserlen ar gyfer gwaith y Pwyllgor o ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil, gan gytuno y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad i'r Senedd erbyn 19 Ionawr 2024.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd y dylid cwblhau trafodion Cyfnod 2 erbyn 8 Mawrth 2024, ar yr amod bod y Senedd yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil.

Ar 9 Ionawr 2024, cytunodd y Pwyllgor Busnes ar estyniad i drafodion Cyfnod 2 tan 15 Mawrth 2024.

Cytunodd y Pwyllgor hefyd i gyflwyno cynnig yng Nghyfnod 2, o dan Reol Sefydlog 26.17(iii), i ofyn am gytundeb y Senedd i drafodion Cyfnod 2 ar y Bil gael eu cynnal gan Bwyllgor o'r Senedd Gyfan.